

yha

# Antur. Am y tro cyntaf ac am oes.

## Ein strategaeth 10-mlynedd, wedi'i diweddaru.

Cyhoeddwyd gwanwyn 2025





Evening Menu













# Amcanion elusennol

Helpu pawb, yn enwedig pobl ifanc ag incwm cyfyngedig, i gael mwy o wybodaeth am gefn gwlad a'i hoffi a gofalu amdano'n fwy, a gwerthfawrogi gwerthoedd diwylliannol trefi a dinasoedd yn fwy, yn enwedig drwy ddarparu hosteli ieuenctid neu lety arall iddynt yn ystod eu teithiau, ac felly hybu eu hiechyd, eu hamdden a'u haddysg.

Mae'r YHA yn elusen ac yn fenter gymdeithasol. Mae menter gymdeithasol yn sefydliad sy'n cael effaith gymdeithasol yn gyfan gwbl neu'n rhannol drwy fasnachu. Yr YHA yw un o'r mentrau cymdeithasol hynaf a mwyaf yng Nghymru a Lloegr. Mae menter gymdeithasol yn rhoi incwm cyson i'r YHA. Mae'r incwm hwn yn ein helpu i redeg ein sefydliad, talu ein staff a chynnal a chadw ein hosteli. O'i gyfuno ag incwm a gafwyd drwy godi arian a ffioedd aelodaeth, mae'n ein galluogi i ddatblygu rhaglenni newydd sy'n cysylltu hyd yn oed mwy o bobl â'r awyr agored, natur a threftadaeth.

**Pan fyddwch yn aros gyda'r YHA, nid dim ond chi sy'n elwa — rydych chi'n helpu i bobl eraill gael anturiaethau sy'n newid bywydau hefyd.**



# Ni yw'r YHA.

Rydym yn credu yng ngrym teithio ac antur. I gysylltu pobl â'i gilydd, â natur a'r awyr agored, â diwylliant ac â threftadaeth.

Ers 1930, mae'r YHA wedi rhedeg rhwydwaith unigryw o hosteli ledled Cymru a Lloegr – cymuned o fannau a rennir sy'n agored i bawb ac er budd pawb.

Rydym yn cynnig anturiaethau cynhwysol, mewn adeiladau hynod, mewn lleoedd rhyfeddol – ond rydym ni'n llawer mwy na llety yn unig.

Mae'r YHA yn ddarparwr arosiadau preswyl blaenllaw, yn hyrwyddwr dros roi mynediad i bawb i'r awyr agored – yn enwedig pobl ifanc, ac yn gyflogwr Buddsoddwyr mewn Pobl lefel Aur.

Rydym yn fenter gymdeithasol fawr sy'n arwain y ffordd ym maes twristiaeth gymdeithasol ac yn meithrin partneriaethau sy'n cael effaith ar draws llawer o sectorau ac ar bob lefel – yn ein cymunedau, yn ein rhanbarthau, ac yn genedlaethol.

95 o flynyddoedd ers ein dechreuad arloesol, mae ein hegwyddorion sefydlol a'n penderfyniad i gyflawni daioni cymdeithasol yn parhau wrth galon yr hyn a wnawn.

Gyda'r nod o gynaliadwyedd hirdymor, camwn ymlaen at ein canrif gyntaf gyda strategaeth wedi'i diweddaru, er mwyn galluogi i bawb cael antur, am y tro cyntaf ac am oes.

**Ni yw'r YHA.**

**Oherwydd mae ble yr ewch chi yn newid pwy fyddwch chi.**



Diweddarwyd y map mis Mawrth 2025



# Rhagair

**Mae'n bleser gennym rannu strategaeth wedi diweddaru'r YHA ar gyfer cysylltu pobl â'i gilydd, â natur a threftadaeth trwy ein hosteli mewn lleoedd anhygoel. Rydym wedi cyrraedd hanner ffordd trwy Antur, ein strategaeth 10-mlynedd. Am y tro cyntaf ac am oes.**

Y strategaeth a bennodd ein cyfeiriad i'r degawd, gyda'r nod o wella mynediad i bawb at antur. Hi sy'n ein harwain o hyd, ac mae wedi ein tywys trwy gyfnodau o gynnwrf digynsail.

Ers inni ddatblygu ein strategaeth yn 2019/20, cafodd yr YHA ei herio a'i newid gan y pandemig a'r argyfyngau economaidd a waethygodd y sefyllfa. Ac rydym wedi dysgu llawer iawn yn ystod y cyfnod hwn. Trwy'r ynysu yn ystod y cyfyngiadau symud, gwelsom yr angen taer am fynediad i fannau gwyrdd a'r cydnerthedd a ddaw o dreulio amser mewn natur. Trwy'r argyfwng costau byw, deallasom effaith cefnogi ysgolion a theuluoedd a oedd yn cael trafferth i ymdopi'n ariannol. A thrwy gythrwfl y blynyddoedd diwethaf, dysgasom o'r newydd grym meithrin hyder a chysylltu mewn byd ansicr.

Bu gwirioneddau bythol yn destun cryfder inni yn ystod yr amserau newidiol hyn. Hynny yw, mae mynediad i'r awyr agored, natur a threftadaeth yn ein gwreiddio â'n hadfywio, yn gwella ein hiechyd a llesiant, ac yn ein hysgogi i ofalu am yr amgylchedd. Mae'r gwirioneddau hynny a arweiniodd at sefydlu'r YHA yn parhau'n greiddiol i'n diben 95 o flynyddoedd yn ddiweddarach.

Yn deillio o benderfyniad i wella bywydau, adeiladodd yr YHA seilwaith y gallai bobl ifanc ei ddefnyddio i archwilio cefn gwlad am y tro cyntaf, cwrdd a gwneud ffrindiau, ehangu ar eu gorwelion, a chyfrannu at y gwaith o gadw mannau gwerthfawr i genedlaethau'r dyfodol.

Sefydlwyd yr YHA yn ystod cyfnod o gyni economaidd dwys er mwyn helpu i ddatrys problemau'r adeg honno. Heddiw, rydym yn wynebu heriau sylweddol a pharhaus hefyd. Heriau sy'n golygu y bydd angen arnom addasu a datblygu er mwyn cael yr effaith y mae ar bobl ei hangen yn awr, ac i gyflawni'r cynaliadwyedd hirdymor a fydd yn cefnogi ein buddiolwyr i'r dyfodol.

Ein heffaith cymdeithasol sy'n ein hysgogi. Ac rydym wedi cyflawni gwaith pwysig yn ystod pum mlynedd gyntaf ein strategaeth.

Er bod tlodi a heriau eraill yn golygu bod gormod o lawer o blant yn dechrau eu bywydau dan anfantais, mae ein bwrsariaeth Heb Adael Unrhyw Blentyn ar Ôl wedi ariannu profiadau dysgu awyr agored datblygiadol hollbwysig i bobl ifanc sy'n agored i'r risg o fethu allan. Mae'r cynllun yn sicrhau eu bod nhw hefyd yn gallu cymryd rhan yn ein harosiadau preswyl blaenllaw ochr yn ochr â channoedd o filoedd o'u cyfoedion bob blwyddyn.

Gyda'r hinsawdd yn wynebu argyfwng ac adfer natur yn hanfodol i'n dyfodol, rydym wedi cysylltu 140,000 o bobl ifanc difreintiedig â byd natur trwy gynllun '*Generation Green*' — gan weithio gyda'n partneriaid i ysgogi amgylcheddwyr y dyfodol ac i hyrwyddo swyddi gwyrdd trwy gynnal gweithgareddau mewn tirweddau gwarchodedig.

Mewn byd lle mae cefndir cymdeithasol rhy aml yn her, mae ein cymuned Dinasyddion yr Awyr Agored wedi grymuso sefydliadau i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb systemig ac wedi agor llifau arian i grwpiau llawr gwlad.

Ar adeg pan fydd pobl yn teimlo diffyg cysylltiad â'i gilydd ac â'r byd o'u cwmpas, mae ein Gŵyl Gerdded wedi ysbrydoli dechreuwyr i archwilio tirweddau'n fwy hyderus, ac i ddod o hyd i gyfeillgarwch yng nghwmni pobl eraill.

Mae cysylltu â natur yn cynnig  arf i bobl ifanc yn erbyn dylanwad y cyfryngau cymdeithasol a'r pwysau meddyliol newydd sydd arnynt o'u herwydd. Mae ein gweithgareddau awyr agored yn magu hyder, hunan-barch, cydnerthedd a pherthnasau yn y byd go iawn.

Gan wynebu gwirionedd anghydraddoldebau iechyd a thrwy gefnogaeth gan gorff *Sport England*, rydym yn helpu i gynnig buddion gweithgarwch corfforol i fwy o bobl – yn enwedig menywod a merched, a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

Dyma ychydig o'r ffyrdd rydym yn gwneud gwahaniaeth drwy raglenni a dargedir sy'n dod â phobl newydd i'r YHA ac sy'n datgloi oes o antur yn lleoliadau mwyaf ysbrydoledig Cymru a Lloegr.

Trwy lansio ein strategaeth wedi'i diweddaru, rydym yn ategu ein hymrwymiad i ehangu ar fynediad drwy ddathlu cyflawniadau'r pum mlynedd gyntaf, ac yn nodi ein cynllun ar gyfer adeiladu arnynt yn ystod y pum mlynedd nesaf. Gan gydnabod mae'r darlun ariannol wedi newid, rhaid inni gryfhau ein strategaeth er mwyn gwella ein heffaith.

Byddwn yn dynesu at ein canmlwyddiant gan ganolbwyntio'n fanwl ar gynyddu'r budd a roddwn i bobl – yn blaenoriaethu gweithgareddau sy'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf, ac yn eu cyflenwi'n gyson gyda phwrpas ledled ein rhwydwaith unigryw o hosteli.

Wrth inni gamu at ein pen-blwydd yn 100 yn 2030 gyda phwrpas clir, gobeithiwn y byddwch yn parhau i gefnogi'r YHA yn ei genhadaeth i gysylltu pobl â'i gilydd, â'r awyr agored, natur a threftadaeth – yn enwedig pobl ifanc a'r rhai sy'n mynd ar antur am y tro cyntaf.

Mae ein hosteli cymaint yn fwy na fannau diogel a chroesawgar i orffwys; maent yn feithrinfeydd ar gyfer magu hyder, cysylltu ac ymdeimlad o berthyn. Edrychwn ymlaen at weld y strategaeth hon wedi'i diweddaru yn dwyn ffrwyth.

Diolch yn fawr.

Margaret a James



**Margaret Hart**

Cadeirydd



**James Blake**

Prif Weithredwr

# Adeiladu ar gynnydd diweddar

Mae ein strategaeth 2020 wedi ein llywio'n dda yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf. Cafodd croeso cynnes yn y sefydliad a thu hwnt. Helpodd i roi'r YHA yn ôl ar y map fel elusen genedlaethol flaenllaw i bobl ifanc, ac agorodd drysau ar gyfer llawer o raglenni effaith a phartneriaethau llwyddiannus.

Gan gynnig buddion i fwy na phobl ifanc yn unig, cadarnhaodd y strategaeth ein hymrwymiad i wella mynediad a chyfranogaeth i bawb — a chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol yn arbennig. Ac ers lansio ein strategaeth, rydym wedi cyflawni cynnydd sylweddol yn y gwaith o dyfu ein cyrhaeddiad yn ystyrlon, ac ymwreiddio tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant.

Yn dilyn y pandemig, croesawsom y galw gan ein cwsmeriaid ffyddlon a ddychwelodd atom, ac adeiladasom niferoedd arosiadau dros nos o'n sylfaen. Ar yr un pryd, daethom o hyd i ffyrdd o groesawu gwesteion a ddaeth at brofiadau YHA am y tro cyntaf.

Gan ddeall y pwysau sydd ar gyllidebau ysgolion a theuluoedd, rydym wedi dadlau o blaid arosiadau preswyl a ariennir, ac wedi'u eu cynnig ledled Cymru a Lloegr. Mae cyfleoedd i gysylltu â natur, mynd ar antur a rhoi cynnig ar weithgareddau newydd yn brofiadau ffurfiannol sy'n rhoi dimensiwn unigryw i ddysgu a datblygu plentyn — yn helpu i bobl ifanc dyfu a datblygu sgiliau hanfodol ar gyfer yr ysgol a bywyd. Rydym yn hyrwyddo hawl pob plentyn a pherson ifanc i gael y profiadau hyn.

Diolch i haelioni ein rhoddwyr, mae arian Rhaglen Seibiannau YHA a bwrsariaethau Heb Adael Unrhyw Blentyn ar Ôl wedi gwneud gwahaniaeth i ddegau o filoedd o bobl ifanc ddifreintiedig a'u teuluoedd sydd ond yn gallu cael budd o dreulio'u noson gyntaf i ffwrdd o adref drwy gymorth uniongyrchol.





Diolch i gyllid gan Defra, fel arweinwyr y glymblaid *Access Unlimited* o sefydliadau ieuenctid nid-er-elw a thirweddau gwarchodedig, rydym wedi cyflawni dwy fenter *Generation Green* arloesol ac wedi cysylltu 140,000 o bobl ifanc â natur. Yn fodel cyflawni profedig, mae *Generation Green* yn enghraifft o rym alinio buddsoddiad cyhoeddus â gallu cymdeithas sifil, ac wedi gosod y sail ar gyfer newid ar raddfa fwy yn yr hirdymor.

Yn ystod cam nesaf ein strategaeth, mae'n uchelgais arnom i adeiladu ar y seiliau hyn, i ehangu ar gyrhaeddiad ein rhaglenni effaith ieuenctid, a gweithio'n agos â'r llywodraeth, arianwyr ac ysgolion, ymddiriedolaethau aml-academi ac eraill, er mwyn helpu i bob plentyn gyflawni a ffynnu.

Gan droi at ein rhaglenni ar gyfer pobl o bob oed, sef Dinasyddion yr Awyr Agored a'r Ŵyl Gerdded, rydym wedi cysylltu â chynghreiriaid newydd yn y sector awyr agored, ac wedi denu pobl newydd trwy ddrysau ein hosteli. Hosteli a deilwrwyd ar gyfer antur yn yr awyr agored, a lle mae pawb yn cael ymdeimlad o berthyn.

**"**

**Byddai mor bwerus i sicrhau bod gan bob plentyn yr hawl i arosiadau preswyl. Yn enwedig i'n 500 o blant ni, ar ôl COVID, roedd yn brofiad a newidiodd bywydau. Caiff grym yr awyr agored ei ddatgloi pan fydd rhywun yn cael ymdeimlad cryf o berthyn. 'Dw i'n teimlo'n gyffyrddus yma, dw i'n perthyn yma, dw i'n teimlo'n rhan o hyn a dw i'n gyfartal â phawb arall.' Dyna'n union beth sy'n digwydd pan fyddwch yn cofrestru mewn hostel ieuenctid.**

**"**

Pan oedd yn gweithio yn Ymddiriedolaeth Addysg David Ross, trefnodd Helena Brothwell, Cyfarwyddwr Addysg Interim Ymddiriedolaeth y Gogledd, Academïau Ormiston, arhosiad preswyl gyda'r YHA yn ystod yr haf er mwyn cefnogi myfyrwyr wrth iddynt ddychwelyd i'r ysgol ar ôl y pandemig

# Rhinweddau unigryw aros mewn hostel

Mae ein cyfleusterau yn ein gosod ni ar wahân. Gyda'u hystafelloedd cysgu, ystafelloedd preifat, cyfleusterau gwersylla a gwersylla moethus, mannau cymdeithasol, ceginau hunanarlwyo, ystafelloedd dosbarth a chaffis, mae gan hosteli gynnig unigryw ac apêl eang. Yn ddiogel, yn gynaliadwy ac yn fforddiadwy, mae hosteli'n gwneud y broses o fynd ar antur yn hawdd ac yn hygyrch.

Serch hynny, dengys ein tystiolaeth nad yw dros hanner y boblogaeth yn ymwybodol o'r YHA ac nid yw'r rhan fwyaf o bobl wedi profi'r buddion o aros gyda'r YHA.

Byddwn yn rhoi mwy o bwyslais ar y profiad tro cyntaf yn ein strategaeth wedi'i diweddaru – gan ganolbwyntio ar gyrraedd defnyddwyr a buddiolwyr newydd. Trwy gynnal pobl i gymryd y cam cyntaf, ein nod yw eu rhoi ar ben ffordd i gael oes o anturiaethau gyda'r YHA, i'w helpu i gael budd o gysylltu â natur a threftadaeth, dro ar ôl tro.

Er mwyn ymestyn ein cyrhaeddiad, byddwn yn tyfu ymwybyddiaeth o'n brand, ein pwrpas a'n cynnyrch, yn datblygu ein gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid, ac yn ehangu ar ein sylfaen gefnogaeth.

Byddwn yn cryfhau ein hapêl er mwyn cyrraedd mwy o bobl o gefndiroedd mwy amrywiol, ac i gael effaith gadarnhaol ar eu bywydau. Byddwn yn parhau â'r gwaith o foderneiddio ein hygyrchedd a gwella profiadau ein cwsmeriaid – yn dod yn fwy effeithlon fel sefydliad er mwyn cyflawni gwerth am arian ac i greu gwarged i'w fuddsoddi yn ein rhwydwaith strategol, sy'n cynnwys casgliad o asedau treftadaeth.

Mae ein model masnachfraint newydd a lansiwyd yn 2023 wedi denu entrepreneuriaid arloesol a buddsoddiad hollbwysig i'n hosteli. Daw partneriaid masnachfraint â chyfoeth o brofiad ym maes lletygarwch ac maent yn darparu cynnig o ansawdd sy'n alinio â'n diben. Mae 12 o hosteli â masnachfraint yn gweithredu ochr yn ochr â'n rhwydwaith strategol bellach, gan gryfhau presenoldeb hostela yng Nghymru a Lloegr.

Trwy gyflawni'r strategaeth hon wedi'i diweddaru, a thrwy ein partneriaethau, byddwn yn cyrraedd anturwyr tro cyntaf ac yn manteisio ar ein cynnig unigryw ledled ystod o leoliadau a phrofiadau.

Mae cyfleoedd i gysylltu â natur a threftadaeth yn gwella ein llesiant trwy gydol ein hoes. Nid dim ond golygfeydd hardd a geir o fod yn weithgar yn gorfforol yn yr awyr agored – mae'n gallu trawsnewid ein hagweddau, codi'n dyheadau, cryfhau ein cydnerthedd a rhoi inni safbwyntiau newydd.

Mae ein hymrwymiad i ddymchwel rhwystrau'n hen hanes. Wrth inni nesáu at ein canmlwyddiant, byddwn yn parhau i gefnogi'r agenda mynediad o'r pen i lawr ac o'r gwaelod i fyny – yn cyfrannu ein gwybodaeth a'n profiad i ymgynghoriadau polisi ac yn cryfhau'r sefydliadau llawr gwlad sy'n gweithio i ddod ag anghydraddoldeb cyfleoedd i ben, er mwyn cefnogi i bobl o bob cefndir a gallu ymgysylltu â natur a threftadaeth, ac i elwa ohonynt.




Youth
Hostel


















“

**Am benwythnos braf. Chawson ni ddim penwythnos cystal ers hydoedd, ac roedd yn gweithio i bawb. Roedd fy ngŵr a minnau’n teimlo ein bod ni wedi cwrdd â’n ‘llwyth’ mabwysiadu — pobl sy’n ein deall ni, o’r diwedd.**

”

Rhiant ar drip i Ganolfan Weithgareddau YHA Edale a ariannwyd gan y Rhaglen Seibiannau ar gyfer grwpiau o deuluoedd sydd â phlant wedi’u mabwysiadu ag anghenion ychwanegol

“

**Mae ein holl rieni a phlant yn uchelgeisiol — maen nhw eisiau i’r plant cael y profiadau hyn, ond dydyn nhw ddim wastad â’r adnoddau i’w galluogi nhw i fynd. Mae arian yr YHA yn hanfodol i sicrhau bod ein plant yn gallu mynd ar arhosiad preswyl a chael y profiadau anhygoel hyn yn yr awyr agored. Heb yr arian, fyddan nhw ddim wedi datblygu i fod y bobl ifanc sydd yma heddiw.**

”

Andrew Wills, dirprwy bennaeth Ysgol Gynradd Welford — ysgol yn Birmingham sy’n derbyn arian bwrsariaeth Heb Adael Unrhyw Blentyn ar Ôl



“

**Dw i’n dwlu ar y lle. Gallwch chi fod yn agored, yn weithgar, yn rhydd, gwneud llawer o bethau. Mae’r staff yn eich trin chi fel oedolion. Mae wedi bod yn anhygoel. Yr amser gorau erioed.**

”

Oedolyn ifanc ar arhosiad a ariannwyd gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru trwy Llamau Caerdydd, elusen gofrestredig sy’n gweithio i ddileu digartrefedd ymysg pobl ifanc a menywod sy’n agored i niwed

“

**Ces i benwythnos anhygoel. Ces i ddiagnosis awtistiaeth yn ddiweddar, ac roeddwn i’n poeni sut fyddwn i’n ymdopi â bod yn gymdeithasol am benwythnos cyfan. Wnes i lwyddo! Diolch i’r merched anhygoel, cryf ac ysbrydoledig o’m cwmpas, roeddwn i’n teimlo wedi fy nghefnogi a bod croeso imi. Diolch am y cyfle.**

”

Cyfranogwr yng Ngŵyl Gerdded YHA o Love Her Wild – cymuned antur nid-er-elw i fenywod

# Elusen effeithlon sy'n canolbwyntio'n fanylach

Mae'r gwaith i ddiweddaru'n strategaeth wedi'i lywio gan ein taith at ymadfer.

Mae'n hysbys i lawer ohonom fod y pandemig wedi cael effaith ddifrifol ar y diwydiant lletygarwch. Ond roedd y colledion i sefydliadau hostela yn anghymesur uwch oherwydd y cyfyngiadau ar ddefnyddio mannau a rennir.

Cyfanswm yr incwm a gollwyd gennym yn ystod y blynyddoedd a effeithiwyd arnynt fwyaf oedd £69 miliwn.


Er inni oroesi COVID, daethom allan ohoni gyda diffyg strwythurol a waethygwyd gan gynnydd enfawr yn y llinellau costau craidd oherwydd yr argyfwng ynni a'r argyfwng costau byw, a gymhlethwyd gan gyfraddau llog uwch ar y benthyciadau a oedd eu hangen ar yr elusen i oroesi'r pandemig.

I liniaru'r effaith ar yr elusen, lluniasom gynllun adfer a thrawsnewid tair-blwyddyn ym mis Mai 2023, er mwyn symud yr YHA yn ôl at warged masnachu erbyn diwedd 2025/26, yn seiliedig ar:

- twf o 30% yng nghyfraniad masnachu'r rhwydwaith strategol – rhwydwaith craidd o hosteli dan berchnogaeth yr YHA
- arbedion o 20% ar gostau canolog – wedi'u hwyluso gan rwydwaith llai o faint, arbedion effeithlonrwydd, a strwythur staff canolog wedi'i ddiwygio
- strategaeth rwydwaith hosteli a fyddai'n symud rhai o'r hosteli o reolaeth uniongyrchol yr YHA, a lle bo'n bosibl, i fasnachfraint

Mae ein cynllun ymadfer ar y trywydd cywir. Ond gorau po gyntaf y gallwn ni ei gwblhau. Fel rhan o'r gwaith i ddiweddaru ein strategaeth, rydym wedi adolygu'n cynllun i gyflymu'r broses o fantoli'r cyfrifon a'r broses ymadfer. Bydd y gweithgareddau a nodir yn y strategaeth hon wedi'i diweddaru yn gyrru'r prosesau hyn a gyflymwyd at warged a chynaliadwyedd.





# Datblygu ein map trywydd i gael effaith

Yn syml, mae damcaniaeth newid yn esbonio sut a pham y bydd rhai gweithgareddau'n arwain at y canlyniadau a ddymunir.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi adolygu'n damcaniaeth newid ac wedi mapio ein gweithgareddau yn ôl ein cynulleidfaoedd targed. Llywiwyd ein gwaith gan fewnwelediadau o'n rhwydwaith a'n haelodau a ddefnyddiwyd i greu map trywydd ar gyfer tyfu ein heffaith.

Cynhaliwyd gweithdai traws-sefydliadol a oedd yn cynnwys Ymddiriedolwyr a chydweithwyr o holl feysydd yr elusen o fis Mai 2023 ymlaen. Daeth y gwaith hwn i ben ym mis Mawrth 2024.

Yn y gweithdai, gwnaethom:

1. drafod yr angen cymdeithasol sy'n gyrru ein diben
2. edrych ar rinweddau unigryw hostela, prif gydrannau effaith yr YHA, a natur arbennig yr hyn a wnawn fel elusen
3. pennu ein targedau ar gyfer effaith, gan ystyried sut allem strwythuro ein rhaglenni a'n gweithgareddau yn ôl lefel angen ein buddiolwyr darged

O ganlyniad i'r gwaith hwn, rydym wedi adolygu a lleihau'r nifer o flaenoriaethau strategol. Trwy gwtogi'r rhestr hon, rydym wedi adnabod yr hyn a wnawn orau, ac wedi dileu'r pethau y mae pobl eraill yn gallu eu gwneud yn well.

Gyda mwy o eglurdeb o ran sut yr ydym yn cael effaith yn bwrpasol trwy weithgareddau hostel, gallwn bennu mesurau ystyrlon i olrhain canlyniadau penodol, gan ein galluogi i wneud y defnydd gorau o'n hadnoddau cyfyngedig er mwyn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl i newid cymdeithasol.

Mae ein damcaniaeth newid newydd wedi'i hymwreiddio yn y gwaith cynllunio busnes yn y tymor byr, y tymor canolig, a'r hirdymor. Bydd hon yn arf hanfodol yn y broses benderfynu.

# Ein damcaniaeth newid newydd

## Angen

Nid yw mynediad at brofiadau sy'n cysylltu pobl â natur a threftadaeth yn gyfartal. Gwyddom fod cysylltu â phobl eraill a chael anturiaethau sy'n ymwneud â natur, treftadaeth a gweithgarwch corfforol i ffwrdd o'r cartref yn datblygu sgiliau a rhinweddau allweddol sy'n cyfrannu at wella llesiant.

## Gweledigaeth

Mae gan bawb fynediad at fuddion antur, am y tro cyntaf ac am oes.

## Cenhadaeth

Galluogi pawb, yn enwedig pobl ifanc, i gysylltu â phobl, natur a threftadaeth, trwy hosteli mewn lleoedd anhygoel.

## Effaith

Mynediad gwell i brofiadau mewn natur a threftadaeth yn cyfrannu at lesiant gwell.*

## Canlyniadau

**Hyder** gwell i roi cynnig ar rywbeth newydd

**Cysylltiadau** gwell gyda phobl, natur a threftadaeth

Ymdeimlad gwell o **berthyn** yn yr YHA

*Sefydliad Iechyd Meddwl 2021, Historic England 2018

**Rydym wedi adnabod hyder, cysylltu a pherthyn fel y tair elfen o lesiant rydym yn eu gwella trwy ein gwaith.**

# Hyder

O fapiau llwybr a theithiau cerdded cymdeithasol wedi'u teilwra at alluoedd gwahanol, i'r gair olaf o gysur i ddisgybl cyn iddo neidio i'r gwagle ar ein cwrs rhaffau uchel, mae'r YHA yn arbenigo mewn magu hyder pobl o bob oedran. Rydym yn troi ofn yn deimlad o "Eto! Eto!" ac yn cefnogi pobl i wthio'u hunain i gyflawni llwyddiannau newydd ac anturiaethau hunan-arweiniol.

# Cysylltu

Y rheolwr hostel sy'n argymell trysorau cudd lleol dros frecwast, neu frwdfrydedd a gwybodaeth arweinydd gweithgaredd sy'n helpu i blentyn abseilio ar garreg, rydym yn angerddol dros helpu i bobl gysylltu â'r byd o'u cwmpas.

# Perthyn

Gyda mannau cymdeithasol, cyfleusterau ymarferol a thiroedd i ymlacio ynddynt (neu redeg o'u cwmpas), mae lleoliadau'r YHA wedi'u hadeiladu mewn ffordd sy'n gwneud i bobl deimlo'n gartrefol. Rydym yn ymfalchïo mewn cynhwysiant gweithredol ac yn hyrwyddo rhyngweithio cymdeithasol er mwyn helpu i bawb deimlo eu bod yn perthyn yn y YHA. Nid oes rhaid ichi fod yn aelod i aros gyda'r YHA, ond mae aelodaeth yn rhoi buddion ychwanegol i'r 123,000+ o bobl a ymunodd â'r YHA, ac maent yn rhan bwysig ohono.



# Ein blaenoriaethau strategol

Rydym wedi mireinio 10 egwyddor strategaeth 2020, a luniwyd i greu effaith ac i alluogi, yn bum egwyddor fwy manwl.

Sylfaen ein strategaeth yw dwy flaenoriaeth alluogi a fydd yn sail ac yn seilwaith i'r gwaith o gyflawni ein diben.

- Byddwn yn adeiladu sylfaen gefnogaeth gref i'r YHA a'r achos hosteli trwy ymgysylltu'n ddyfnach â staff, aelodau, rhoddwyr, gwirfoddolwyr, partneriaid ac arianwyr.
- Byddwn yn cynnal rhwydwaith hyfyw o hosteli fforddiadwy a chynaliadwy o ansawdd, wedi'i gefnogi gan swyddfa ganolog effeithiol, sy'n creu gwarged blynyddol.

Mae tair blaenoriaeth effaith yn seiliedig ar y gynulleidfa wedi'u gosod ar ben y ddwy flaenoriaeth alluogi.


- Byddwn yn galluogi pawb i gael mynediad i'n lleoliadau ac i ddefnyddio ein rhwydwaith er mwyn cysylltu ein gwesteion â phobl, natur, treftadaeth a gweithgarwch corfforol yn ein hosteli ac yn eu cyffiniau.
- Byddwn yn gwella mynediad i arosiadau dros nos mewn hosteli, gan gefnogi cyfleoedd i unrhyw un a fyddai'n elwa o'r profiad am y tro cyntaf, ac yn ei rymuso i fynd ar anturiaethau hunan-arweiniol.
- Byddwn yn talu cymhorthdal ar gyfer arhosiad cyntaf dros nos y bobl ifanc sy'n lleiaf tebygol o gael profiadau natur a threftadaeth, gan dargedu'r rhai a fydd yn cael y budd mwyaf o aros dros nos.

## Ein hymagwedd

Wrth gyflawni ein strategaeth wedi'i diweddaru, byddwn yn canolbwyntio'n gyntaf ar ein blaenoriaethau galluogi er mwyn gosod yr YHA ar dir cadarn i'r dyfodol.

Pan fydd ein cynllun ymadfer wedi'i gwblhau a bydd gan yr elusen warged, gallwn ganolbwyntio mwy ar ein blaenoriaethau effaith.

Dros oes y strategaeth, byddwn yn elwa o gronfa ddata sy'n tyfu a mewnwelediad a fydd yn caniatáu inni fireinio rhaglenni a gweithgareddau fel ein bod ni'n cael yr effaith fwyaf posibl.


Arosiadau â chymhorthdal i bobl ifanc
Arosiadau tro cyntaf
Mynediad i bawb
Rhwydwaith hyfyw o hosteli
Sylfaen gefnogaeth gref
Cynyddu effaith

# Sut y byddwn yn mesur ein cynnydd

**Mae gennym fesuriadau clir ar gyfer ein pum blaenoriaeth.**

## 1. Arosiadau â chymhorthdal i bobl ifanc

**Erbyn 2030, byddwn wedi dyblu'r gyfran o bobl ifanc ddifreintiedig sy'n aros gyda ni — o 10% i 20% o'r gwesteion dan 26 oed.***

## 2. Arosiadau am y tro cyntaf

**Erbyn 2030, byddwn wedi cynyddu nifer y bobl sy'n aros o grwpiau addysgol a grwpiau wedi'u hariannu 50% — gan dyfu i draean o'r holl westeion.**

## 3. Mynediad i bawb

**Erbyn 2030, bydd y rhai sy'n aros gyda ni, y rhai sy'n elwa o'n darpariaeth a'n cymorth, ein cyflogeion a'n gwirfoddolwyr, yn adlewyrchu demograffeg Cymru a Lloegr.**

**Ac ar draws pawb sy'n aros gyda ni erbyn 2030, bydd hyder, cysylltu ac ymdeimlad o berthyn ein gwesteion wedi tyfu'n gynyddol o flwyddyn i flwyddyn.**

Byddwn yn meincnodi ac yn olrhain cynnydd y tri chanlyniad llesiant hyn er mwyn dangos effaith arhosiad gyda'r YHA ar westeion a buddiolwyr.

*pobl ifanc sy'n aros o ysgolion/grwpiau â chodau post ym mandiau 1 i 3 y Mynegai Amddifadedd Lluosog.

# 4. Rhwydwaith hyfyw o hosteli

**Erbyn 2030, bydd gennym warged eto, wedi'i gyflawni trwy dwf o flwyddyn i flwyddyn yn nifer y bobl sy'n aros yn ein lleoliadau a chynnydd yn ein hincwm masnachu, a thrwy gyflawni meincnodau effeithlonrwydd gweithredu cenedlaethol ar gyfer elusennau a lletygarwch.**

Trwy greu gwarged blynyddol net a thyfu ein cronfeydd wrth gefn, gallwn gefnogi buddsoddi tymor hirach yn ein lleoedd, ein rhaglenni a'n pobl.

# 5. Sylfaen gefnogaeth gref

**Erbyn 2030, byddwn wedi datblygu sylfaen ehangach o gefnogaeth i'r YHA, wedi'i galluogi gan dwf o flwyddyn i flwyddyn yn niferoedd ein cefnogwyr, sgorau hyrwyddwyr net sy'n fwy na chyfartaledd y sector, a sgôr ymgysylltu â chyflogeion dros 75%.**



# Yr hyn a wnawn i gyflawni ein hamcanion

**Dyma'r gweithgareddau lefel uchel y byddwn ni'n eu defnyddio i gyflawni'r strategaeth.**

## 1. Gwneud y defnydd mwyaf o effaith pwrpasol

Byddwn yn gwneud pob arhosiad gyda'r YHA yn ystyrlon, yn sicrhau bod mwy o bobl yn gallu mwynhau'r awyr agored, yn cysylltu â natur a threftadaeth, ac yn teimlo'n rhan o rywbeth arbennig.

### Byddwn yn

- bywiogi cynllun effaith yr YHA trwy sicrhau y bydd pob hostel yn cynnig profiadau a gweithgareddau sy'n adeiladu hyder y gwesteion, eu cysylltu, a'u hymdeimlad o berthyn
- darparu rhaglenni sy'n cynyddu nifer y rhai sy'n elwa ar arosiadau a gefnogir ac arosiadau a dargedwyd, gan ei wneud yn haws i fwy o bobl gyrraedd mannau gwyrdd, archwilio lleoedd a drysorir, a chymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol – yn enwedig y rheiny sy'n wynebu rhwystrau
- olrhain a rhannu'r gwahaniaeth rydym yn ei wneud, gan ddefnyddio data a mewnwelediad i wella'r hyn a wnawn

## 2. Gweithio'n fwy doeth ac yn fwy darbodus

Byddwn yn rhedeg yr YHA yn fwy effeithlon, gan ei wneud yn haws i'n timau gyflawni eu rolau ac i gynnig profiad gwell i gwsmeriaid.

### Byddwn yn

- symleiddio gweithgareddau ac yn hybu effeithlonrwydd ein timau canolog er mwyn canolbwyntio ar y tasgau a fydd yn cyflawni ein blaenoriaethau strategol ac yn rhoi'r gefnogaeth orau i'n hosteli
- symleiddio'n prosesau, gwella ein gwaith cynllunio, dileu gwastraff ac yn gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau er mwyn gwella ein perfformiad ariannol a phrofiadau cwsmeriaid
- uwchraddio ein TG a'n gwefan er mwyn ei wneud yn haws i bawb eu defnyddio

# 3. Creu galw cyson

Byddwn yn tyfu'r YHA trwy ddenu mwy o westeion, hyrwyddo'r hyn sy'n ein gwneud yn arbennig, a chyflenwi llety o ansawdd mewn mannau yr hoffai bobl aros ynddynt.

### Byddwn yn

- rhoi ein strategaeth fasnachol ar waith er mwyn denu mwy o westeion, cynyddu incwm a chryfhau cynaliadwyedd ariannol yr YHA
- codi ymwybyddiaeth o gynnig yr YHA, ei bwrpas elusennol ac amrywiaeth ei gynnyrch
- cwblhau ein strategaeth rhwydwaith hosteli

# 4. Adeiladu i'r dyfodol

Byddwn yn cryfhau'r YHA i'r dyfodol trwy fod yn ddiogel yn ariannol, datblygu ein hosteli a lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd.

### Byddwn yn

- sicrhau dyfodol yr YHA trwy fynd yn ôl at warged a lleihau ein dyled
- dod â'n gweledigaeth ar gyfer 'hostel y dyfodol' at ei gilydd a datblygu ein cynlluniau buddsoddi i greu mannau a phrofiadau gwell i'n gwesteion
- gwneud yr YHA yn fwy cynaliadwy yn amgylcheddol, gan leihau ein hôl-troed carbon er mwyn cyrraedd sero net erbyn 2050

# 5. Ymwreiddio ein hangerdd a gwella ymgysylltu

Byddwn yn gwneud ein haelodau a'n cefnogwyr yn falch – trwy gyflenwi arosiadau hostel gwych, codi'n llais am y gwaith a wnawn, ac annog pobl i fod yn rhan o'n cenhadaeth.

### Byddwn yn

- sicrhau y bydd ein gwesteion yn dychwelyd o hyd trwy ganolbwyntio ar safonau ein lletygarwch, gwasanaethau gwych, a chyflenwi cynnyrch sy'n cyd-fynd â'u hanghenion a'u disgwyliadau
- gwella ymgysylltu â chefnogwyr trwy ddangos ein heffaith ac annog mwy o bobl i gymryd rhan – trwy gyflwyno aelodaeth ddigidol, aelodaeth ieuenctid ac aelodaeth oes, ochr yn ochr â'n haelodaeth safonol bresennol, a gweithgareddau codi arian
- grymuso, cefnogi a chydnabod cyfraniadau ein pobl i'r gwaith o gyflawni'r strategaeth er mwyn gwella ein hymgysylltu â chyflogeion

# Beth sydd wedi newid?

- Mae ein ffocws craidd ar roi mynediad i brofiadau natur a threftadaeth yn alinio ein gweithgareddau menter gymdeithasol, neu gynnig cyffredinol, â'n rhaglenni cymorth a dargedwyd.

- Mae'r profiad 'tro cyntaf' wrth galon ein cynnig, i bobl ifanc ac eraill, er mwyn sicrhau y byddwn yn cyrraedd y rheiny sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf, ac a fyddai'n elwa mwyaf o gael mynediad gwell i natur a threftadaeth.

- Rydym wedi disodli'r canlyniadau ehangach o fuddion i iechyd, llesiant a sgiliau bywyd gyda'r agweddau penodol o lesiant y gwyddom y gallwn eu gwella: hyder, cysylltu, ac ymdeimlad o berthyn.

- Rydym yn gwneud ein gwaith adrodd effaith yn fwy eglur a syml er mwyn mesur yn ystyrlon y cynnydd a wnawn yn ôl y blaenoriaethau strategol, proffil y gwesteion, ymgysylltu a thargedau perfformiad.

- Rydym yn rhoi mwy o fwriad i'n heffaith, yn darparu ein gweithrediadau a'n gweithgareddau yn fwriadol er mwyn cyflawni canlyniadau'n ymwybodol ac yn gyson yn ein hosteli.

- Bydd cysylltu a pherthyn wedi'u hymwreiddio ym mhrofiad ein cefnogwr. Ein nod yw cynnal ymgysylltiad pobl â'r YHA o'u harhosiad cyntaf ymlaen. O'u hantur fel plant ifanc neu eu trip ysgol cyntaf ymlaen, byddwn yn rhoi i bobl y buddion o hostela am oes.

- Byddwn yn mynd ar ôl portffolio llai o weithgareddau er mwyn sicrhau ffocws clir ar nifer llai o flaenoriaethau strategol.

- Rydym wedi ymwreiddio ein damcaniaeth newid fel arf strategol ar gyfer gwneud penderfyniadau.

# Gwerthoedd ein pobl

Rydym yn tanysgrifio i gyfres o werthoedd ac ymddygiadau craidd i feithrin amgylchedd cadarnhaol i'n pobl a'n gwirfoddolwyr er mwyn gwasanaethu ein defnyddwyr a'n buddiolwyr yn y ffordd orau, a chyflawni ein diben.

## Cymwynasgar

Mae cymwynasgarwch yn fater o wneud bywyd yn haws i bobl eraill, bod yn groesawgar a chreu amgylchedd gweithio dymunol.

## Effeithlon

Mae bod yn effeithlon yn golygu bod yn drefnus, yn ystyriol wrth benderfynu, yn ddiwyd ac wedi ymrwymo i wella. Fel elusen, mae dyletswydd arnom i ddefnyddio ein hadnoddau yn y ffordd orau a allwn.

## Dilys

Mae bod yn ddilys yn cyfuno rhinweddau gonestrwydd, didwylledd a thryloywder. Mae'n fater o fod yn ddiffuant ac yn agored.

## Llawn parch

Mae parch yn fater o werthfawrogi amser, egni, safbwyntiau, cyflawniadau a dulliau gweithio cydweithwyr, gwirfoddolwyr a chefnogwyr. Mae'n fater o hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth.

## Cyd-dynnu fel tîm

Un tîm yw'r YHA. Ac er iechyd a llwyddiant y tîm, rydym yn cymryd cyfrifoldeb fel unigolion, yn dangos rhinweddau arweinyddiaeth bersonol ac yn cydweithio tuag at ein nodau.

# Edrych ymlaen at ein canmlwyddiant

## Beth y gallem ei ddweud am yr YHA yn 100 oed

Canrif yn ôl, dychmygodd ein sefydlwyr byd lle y byddai llawenydd antur, cysur byd natur, a'r rhwymau a rennir sy'n dod o gysylltiadau dynol o fewn cyrraedd i bawb. Heddiw, mae eu gweledigaeth yn fyw ac yn iach yn yr YHA.

Rydym yn cynnig arosiadau gwych mewn lleoedd anhygoel — adeiladau unigryw yn swatio mewn tirweddau trawiadol, dinasoedd yn llawn hanes a diwylliant, ac ar hyd arfordiroedd syfrdanol. Trwy'r lleoedd hyn, rydym yn cysylltu pobl: â'i gilydd, â rhyfeddodau natur, ac â thrysorau ein cyd-dreftadaeth.

Yr YHA yw un o fentrau cymdeithasol mwyaf y DU ac mae'n aelod blaenllaw o'r mudiad hostela rhyngwladol. Rydym yn rhannu arferion gorau o ran diben ac effaith gyda sefydliadau ledled y byd, ac yn dysgu gan eraill yn ein tro.

Ar hyd y degawdau, rydym wedi ehangu ar ein gorwelion, newid bywydau a datblygu'r elusen er mwyn diwallu anghenion cymdeithasol sy'n newid.

Mae ein gwaith fel darparwr arosiadau preswyl blaenllaw wedi galluogi anturwyr ifanc ledled Cymru a Lloegr i fynd ar antur, dysgu a thyfu. Trwy bartneriaethau ag ysgolion a grwpiau ieuenctid, rydym wedi gwneud dysgu yn yr awyr agored yn gonglfaen addysg, gan gyfoethogi bywydau a grymuso pobl ifanc i wthio tu hwnt i'w ffiniau.

Gyda'n gilydd, rydym wedi meithrin cenedlaethau o anturiaethwyr gyda chysylltiad dwfn â natur a threftadaeth, sydd â'r sgiliau a'r hyder i gyfrannu'n ystyrlon at y gwaith o amddiffyn yr amgylchedd a'u cymunedau.

Mae'r YHA wedi cyflwyno rhyfeddodau'r awyr agored i niferoedd diri o bobl. Mae ein presenoldeb yn y Parciau Cenedlaethol, Tirweddau Cenedlaethol, a mannau gwyrdd a glas gwerthfawr eraill yn sicrhau y bydd pawb yn gallu eu cyrraedd a'u trysori.

Mae ein gwaith yn gwella llesiant meddyliol — yn tyfu hyder, cysylltu ac ymdeimlad o berthyn — ac yn hyrwyddo gweithgarwch corfforol, gan wella iechyd a hapusrwydd pawb sy'n ymgysylltu â ni.

Mae ein lleoedd yn ganolfannau o gynhwysiant ac yn ffefrynnau i'r gymdeithas gyfan. Maent yn estyn croeso cynnes i bawb, a chânt eu dathlu fel pyrth i brofiadau newydd. Rydym yn ddarparwr ac yn bartner dibynadwy sydd â diben clir a chynnyrch y mae pobl yn eu hargymell.

Rydym wedi dangos beth ellid ei greu o adfyd. Rydym wedi goroesi cynnwrf y degawd diwethaf ac wedi gosod y sylfeini i'r elusen ffynnu ymhell i'r dyfodol. Gyda sefyllfa ariannol gynaliadwy, gall yr YHA edrych ar fuddsoddi a thyfu.

Mae'r YHA yn fwy na rhwydwaith o hosteli: mae'n brawf o rym parhaus cysylltu, archwilio, a gofalu am ein gilydd, a'r byd a rannwn.

Credwn y byddai ein sylfaenwyr yn falch ohonom.


Y
H.A.


THIS YOUTH HOSTEL
IS ONE OF MANY, BOTH IN THIS COUNTRY AND ABROAD, WHERE YOUNG PEOPLE, REGARDLESS OF RACE OR CREED, MAY SPEND THE NIGHT.
THE BUILDINGS ARE DIVERSE IN CHARACTER BUT THEY HAVE A COMMON PURPOSE: TO HELP ALL, ESPECIALLY YOUNG PEOPLE OF LIMITED MEANS, TO A GREATER KNOWLEDGE, LOVE AND CARE OF THE COUNTRYSIDE.
Y. H. A. NATIONAL OFFICE,
TREVELYAN HOUSE, ST. ALBANS, HERTS.




YHA




CHEER UP!
NOT FAR NOW
YHA



# Y camau nesaf

Rydym yn gweithio ar y cynlluniau cyflenwi a fydd yn gwireddu ein nodau, a'r fframwaith gwerthuso a fydd yn ein galluogi i fesur ein heffaith.

Hoffem wneud gwahaniaeth mawr. Ond ni allwn ei wneud ar ein pennau ein hunain.

Bydd partneriaethau strategol yn ein helpu i gyflawni ein huchelgais ac i ymhelaethu ar ein neges.

Os hoffech ddysgu mwy am strategaeth yr YHA a thrafod sut y gallwn weithio gyda'n gilydd, byddem wrth ein boddau i glywed gennych.

Ewch i yha.org.uk. Cysylltwch â strategy@yha.org.uk.

## Helpwch ni i gysylltu pobl â'i gilydd, â natur a threftadaeth

### Arhoswch gyda ni

Archebwch le gyda'r YHA a theimlwch fudd treulio amser i ffwrdd a chefnogi menter gymdeithasol sydd wedi ymrwymo i wella mynediad i bawb.

### Dysgwch gyda ni

Dewiswch yr YHA fel eich darparwr arosiadau preswyl a dewch â buddion dysgu yn yr awyr agored i'ch ysgol neu grŵp.

### Cefnogwch ni

Ymaelodwch neu rhowch rodd ariannol i fwynhau'r gwobrau o wneud gwahaniaeth. Gyda'n gilydd, gallwn helpu mwy o bobl i fynd ar anturiaethau sy'n tyfu hyder, cysylltu ac ymdeimlad o berthyn.

### Partnerwch â ni

Dewch i weithio gyda ni i ariannu, dylunio a chyflawni rhaglenni a dargedwyd sy'n cysylltu pobl â'i gilydd, â'r awyr agored, natur a threftadaeth.

**Ni yw'r YHA.**
**Oherwydd mae ble yr ewch chi yn newid pwy fyddwch chi.**

yha.org.uk

Registered with FR FUNDRAISING REGULATOR

YHA (ENGLAND AND WALES), Trevelyan House, Dimple Road, Matlock, Derbyshire DE4 3YH Company No. 00282555 Registered Charity No. 306122